**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**18/05/2018**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**AM 7.35PM (yn syth ar derfyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)**

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol.

2. **YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Caderiydd); Y Dirprwy-Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen; Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**Aelodau'r Cyhoedd;** Debra; Mel Briant; Joanne Davies; Ceinwen Goodwin; Nel Jones; Ted Jones; Andy Mchood; Nic Mchood; Esther Wakeling & Debra.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. John Jones a'r Cyngh. Non Jones am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Evans nad oedd materion lawer i'w hadrodd yn ystod y mis diwethaf. Ni fu unrhyw broblemau gwrthgymdeithasol. Bu lladrad yn swyddfa *Cadw,* Pontrhydfendigaid pan gafodd y cist ei dwyn.
O ganlyniad i dystiolaeth fforensig, lleolwyd y gist mewn safle i'r gogledd o Aberystwyth.
Bu lladrad yn ymwneud â sied yn Ffair Rhos gan ddwyn y beic mynydd.

5. **DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

6. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 19eg O EBRILL 2018**
**CYNIGIWYD** (Y Gyngh. Laura Jones) **EILIWYD** (Y Gyngh. Mair Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 19eg o Ebrill 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes.
**Arwahan i Gofnod: 7.8 Glanhau a Pheintio (llythyrau aur):** Cofeb Ryfel, Ponthrhydfendigiad: Ystyriwyd y Grant Cofeb Ryfel. Bydd angen 3 dyfynbris ar gyfer y gwaith adnewyddu. *Y Gyngh. Laura Jones i gysylltu â Mr James am un dyfynbris.*
**Dylid ddarllen, "**Y Gyngh. Laura Jones i ofyn i Mr Kieran Elliott."

7. **MATERION YN CODI**
**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ofyn am ddiweddariad.

**7.2 Gwefan y Cyngor Cymuned: nawr yn ei le.**
Cynhwysir polisïau'r Cyngor Cymuned i gynnwys Rheolau Sefydlog ar y Wefan, a fydd yn gosod mewn lle canllawiau clir ar gyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned.
**PENDERFYNWYD** gosod mewn lle Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cyngor Cymuned.

**7.3 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
Gwnaeth y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn; bydd angen symud polyn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2017** Cynhaliodd ROSPA arolwg parc yn ystod mis Mehefin am ffi o £66.50. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad. Dywedwyd bod angen sylw ar y cylchfan. Defnyddir dŵr poeth i lanhau'r matiau. Mae Archwiliad Chwarae Rospa wedi'i drefnu ar gyfer haf 2018.

**7.5 Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines Elisabeth 11**: i arddangos plac gerllaw'r goeden Dderwen. *Dim Datblygiadau i'w hadrodd yn ystod y cyfarfod hwn.*

**7.6 Cŵn yn Baeddu:** penderfynodd y Cyngor Cymuned i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at y broblem barhaus o gŵn yn baeddu yn y Pentref. Archebwyd chwistrellu lliw i'w defnyddio. **PENDERFYNWYD:** y Gyngh. Clare Hughes a'r Gyngh. Angharad Jones i glustnodi sylw i'r mater.

**7.7 Cinio Blynyddol:** trefnwyd ar gyfer Gwener, 18fed o Fai 2018 fel y dyddiad i gynnal y Cinio Blynyddol yn y Llew Coch, Pontrhydfendigaid. Y Ddewislen wedi'i dosbarthu ymysg aelodau.

**7.8 Y Fenter Ddi-blastig:** Sefydlir Grŵp Llywio yn y Pentref i gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned er mwyn tanysgrifio i'r Fenter Ddi-blastig. Bu i'r Cyngor Tref drefnu digwyddiad casglu sbwriel o fewn y pentref.

**7.9 Glanhau a Thrwsio'r Gofeb Ryfel,** Ponthrhydfendigiad: **PENDERFYNWYD** cysylltu â Kieran Elliott & Mr James.

**7.10 Un Llais Cymru (U.Ll.C):** yn ceisio cynrychiolwyr yng Nghyfarfodydd bob 3 mis ULlC. (Cynrychiolwyr presennol: Y Gyngh. Clare Hughes a'r Cynghorydd Doug Rowbotham). Enwebwyd y Gyngh. Laura Jones i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfodydd Un Llais Cymru.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio**
Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig gwneud nifer o newidiadau i'r cyfyngiadau parcio yng Ngheredigion. Mae mapiau a manylion pellach am y newidiadau arfaethedig yn ward y Cyngor Cymuned ar gael trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol http://www.ceredigion.gov.uk/public-it/traffic/1/YstradFflur.zip. Angen derbyn sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion

hyn erbyn 29 Mai 2018. Os na fydd y Cyngor Sir wedi clywed oddi wrth y Cyngor Cymuned erbyn y dyddiad hwn, tybir nad oes unrhyw wrthwynebiad i unrhyw ran o'r hyn a gynigir yn ward y Cyngor Cymuned.
**PENDERFYNWYD** trefnu cyfarfod safle i drafod ymhellach.

**8.2** **Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol:** Rh.G.D.C: yn orfodol i'w weithredu o'r 25ain o Fai 2018. Mae'n cynyddu hawliau unigolion parthed data personol ac i'w weithredu gan y Cyngor Cymuned. Disgwylir rhagor o gyngor dan law Un Llais Cymru.

**8.3** **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1** **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli a derbyniwyd y llyfr-siec.
**9.2** **Cyflog y Clerc** Mai 2018 £155.07.
**9.3** **Cyllid a Thollau EM Mai** 2018 £38.76.
**9.4** **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion**
Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.
**9.5** **Bydd Mrs Enid Hughes yn cynnal archwiliad mewnol** y Cyngor Cymuned yn ystod y mis nesaf. Bydd y Cyfrifwyr Grant Thornton yn ymwneud â'r Archwiliad Allanol ym mis Gorffennaf.
**9.6** **Adnewyddu Yswiriant Zurich,** 1 Mehefin 2018: £478.84.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**
**i ADRODD AT SYLW CYNGOR SIR CEREDIGION:**

**11.1** Mae problemau yn bodoli mewn perthynas â'r ffens yng nghyffiniau Nant y Cŵn / Llew Du;
**11.2** Priffyrdd: Ystrad Meurig i Dy'n Graig: y ffordd angen sylw nifer o fannau;
**11.3** Heol y Bannau: mae palmentydd yn dirywio tu allan i rhif 17/18-27

***Daeth y cyfarfod i ben am*** **8.40pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 21ain o Fehefin 2018 at 7pm.**

====================================================
(Arwyddwyd/Dyddiad )